**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd
Dydd Iau, 10 Mawrth 2022 am 3.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Williams | Y Cynghorydd J Barton |
| Y Cynghorydd D Grehan | Y Cynghorydd G Hughes |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd W Lewis |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd S Powderhill |
| Y Cynghorydd J Williams | Y Cynghorydd D Williams |

## Swyddogion oedd yn bresennol: -

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd
Mr R Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng-flaen Cyfarwyddwr a Gwasanaethau Rheng-flaen

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd G Thomas | |

### 212 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

### 213 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## 214 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

## 215 COFNODION 27.01.22

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2022 yn rhai cywir.

## 216 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

## 217 CAIS RHIF: 21/0273

**Ffordd osgoi arfaethedig, Tir i'r gorllewin o bentref Llwydcoed ac i'r dwyrain o bentref Pen-y-waun, gan gysylltu'r A465 ger Croesbychan â'r A4059 yng nghornel de-ddwyreiniol Pen-y-waun.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

Mr Roger Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheng Flaen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Ymgeisydd);

Cefnogwyr:

Ms Vicki Howells
Ms Annette Davies
Ms Gill Pugh
Ms Pauline Williams
Mr Kristian Howell

Gwrthwynebwyr:

Mr Morien Morgan
Mr Richard Jones
Ms Non Thomas
Mr Alan Bateman
Mr Tom Bateman

Arferodd yr Ymgeisydd, Mr Roger Waters, yr hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebwyr.

Siaradodd yr Aelodau Lleol, Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol Gareth Jones, Ann Crimmings a Graham Thomas, nad yw'n aelodau o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi eu cefnogaeth ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyfeiriodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol at ddau lythyr 'hwyr' a dderbyniwyd oddi wrth drigolion lleol yn gwrthwynebu'r cais, yr ymdriniwyd â'u cynnwys yn bennaf yn adran Cyhoeddusrwydd yr adroddiad.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar gais "galw i mewn" gan Lywodraeth Cymru.

(**Nodwch:** Roedd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol Julie Barton, Danny Grehan, Wayne Owen, a Julie Williams am gofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio yn erbyn cymeradwyo'r cais uchod.)

**218 CAIS RHIF: 21/1618**

**Estyniad ochr deulawr ac unllawr (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 08/02/2022), 19 Ffordd Aberhonddu, Ton-teg, Pontypridd.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Lewis Kastein (Gwrthwynebydd). Cafodd e bum munud i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodwch:** Ar y pwynt yma, gadawodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol Steve Powderhill a Doug Williams y cyfarfod (4.46pm))

**219 CAIS RHIF: 21/1669**

**Gwaith ailddatblygu arfaethedig ar gyfer Ysgol Gynradd Pont-y-clun, gan gynnwys dymchwel yr holl adeiladau presennol, adeiladu ysgol Carbon Sero-Net newydd, darpariaeth chwaraeon, mynedfeydd i gerbydau, cerddwyr a beicwyr, mannau parcio ar gyfer ceir a beiciau, gwaith tirlunio, Systemau Draenio Cynaliadwy a seilwaith cysylltiedig. Bydd hefyd yn cynnwys sefydlu adeiladau ysgol dros dro a'r seilwaith cysylltiedig sydd ei angen yn ystod y gwaith adeiladu, Ysgol Gynradd Pont-y-clun, Coedlan y Palalwyf, Pont-y-Clun, Pont-y-clun.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

Ms Natalie Queffurus (Asiant)
Ms Kath Liddiard (Cefnogwr)
Ms Suzanne Price (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Asiant, Ms Natalie Queffurus, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebwyr.

Cyfeiriodd y Pennaeth Materion Cynllunio at lythyr 'hwyr' a dderbyniwyd oddi wrth Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Margaret Griffiths, yr oedd ei gynnwys eisoes wedi'i amlinellu ganc Ms Kath Liddiard yn ei hanerchiad i'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr Amodau a amlinellir yn yr adroddiad, yn ogystal â'r amod ychwanegol yma:

Er gwaethaf y cynlluniau a gyflwynwyd, bydd dyluniad peirianyddol llawn a manylion gwelliannau priffyrdd oddi ar y safle i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn yr asesiad Llwybr Mwy Diogel i'r Ysgol yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y manylion a gymeradwywyd yn cael eu gweithredu cyn meddiannaeth lesiannol yr ysgol newydd.

RHESWM: Er mwyn sicrhau digonolrwydd y gwaith priffyrdd oddi ar y safle, er budd diogelwch y ffyrdd a llif rhydd traffig.

(**Nodwch:** Ar yr adeg yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Gareth Hughes y cyfarfod (5.19pm))

(**Nodwch:** Cymerodd y Pwyllgor doriad o bum munud ar yr adeg yma)

**220 CAIS RHIF: 21/1670**

**Gwaith ailddatblygu arfaethedig ar gyfer Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref, gan gynnwys dymchwel yr holl adeiladau presennol, adeiladu ysgol Carbon Sero-Net newydd, darpariaeth chwaraeon, mynedfeydd i gerbydau, cerddwyr a beicwyr, mannau parcio ar gyfer ceir a beiciau, Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref, Heol Sant Illtyd, Pentre'r Eglwys, Pontypridd.**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Harrison Moore (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr Amodau a amlinellir yn yr adroddiad, yn ogystal â'r amod ychwanegol yma:

Er gwaethaf y cynlluniau a gyflwynwyd, bydd dyluniad peirianyddol llawn a manylion gwelliannau priffyrdd oddi ar y safle i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn yr asesiad Llwybr Mwy Diogel i'r Ysgol yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y

manylion a gymeradwywyd yn cael eu gweithredu cyn meddiannaeth lesiannol yr ysgol newydd.

RHESWM: Er mwyn sicrhau digonolrwydd y gwaith priffyrdd oddi ar y safle, er budd diogelwch y ffyrdd a llif rhydd traffig.

**221 CAIS RHIF: 21/1671**

**Dymchwel adeiladau presennol Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi ac adeiladu ysgol Carbon Sero-Net newydd, sy'n cynnwys cyfleusterau dosbarth meithrin a chyfleusterau ysgol gynradd gan gynnwys cyfleusterau chwaraeon, mynedfeydd i gerbydau, cerddwyr a beicwyr, mannau parcio ar gyfer ceir a beiciau, gwaith tirlunio, Systemau Draenio Cynaliadwy a seilwaith cysylltiedig. Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi, y ffordd o Gilgant Burgesse, Llantrisant, Pont-y-clun.**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Ms Ella Phillips (Asiant). Cafodd hi bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr Amodau a amlinellir yn yr adroddiad, yn ogystal â'r amod ychwanegol yma:

Er gwaethaf y cynlluniau a gyflwynwyd, bydd dyluniad peirianyddol llawn a manylion gwelliannau priffyrdd oddi ar y safle i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn yr asesiad Llwybr Mwy Diogel i'r Ysgol yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y manylion a gymeradwywyd yn cael eu gweithredu cyn meddiannaeth lesiannol yr ysgol newydd.

RHESWM: Er mwyn sicrhau digonolrwydd y gwaith priffyrdd oddi ar y safle, er budd diogelwch y ffyrdd a llif rhydd traffig.

**222 CAIS RHIF: 21/0667**

**Estyn y maes parcio presennol sy'n gwasanaethu Gorsaf Drenau Llwynypia, Maes parcio gorsaf drenau Llwynypia, Tonypandy.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**223 CAIS RHIF: 21/1668**

**Adeiladu estyniad mewnlenwi unllawr ac agoriadau newydd y tu ôl i'r eiddo, adeiladu cyntedd newydd wrth ochr yr eiddo, trosi’r llofft gan osod ffenestr ddormer newydd i flaen yr eiddo, Mount Pleasant, 2 Heol Tyfica, Pontypridd.**

Ar yr adeg yma, penderfynodd y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod yn parhau am fwy

na 3 awr.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**224 CAIS RHIF: 21/1677**

**Dymchwel estyniadau unllawr y tu cefn i'r eiddo ac wrth ochr yr eiddo. Estyniad newydd y tu cefn i'r eiddo (rhannol unllawr, rhannol ddeulawr) i ffurfio 2 uned siop (Defnydd Dosbarth A1) ar y llawr gwaelod, gyda Fflat 1 Ystafell Wely (Defnydd Dosbarth C3) ar y llawr cyntaf, Clinig Ffisiotherapi, 32 Heol y Bont-faen, Pont-y-Clun, Pont-y-clun.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**225 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio, mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi eu Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 14/02/2022 hyd at 25/02/2022.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.55 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**